

Cylchlythyr/Newsletter

LLAIS PEDR

Mae'n bwysig iawn i ni bod disgyblion Ysgol Bro Pedr yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Deallwn bod pethau yn codi o bryd i'w gilydd sydd yn golygu bod angen cefnogaeth ychwanegol. Yn ogystal â Phenaethiaid Blwyddyn ac Arweinwyr Ardal yr ysgol sydd ar gael i gefnogi gyda materion lles a chynnydd ein disgyblion, mae nifer o sianeli cymorth gyda ni yn yr ysgol o'r Meithrin i flwyddyn 13. Dyma flas o'r hyn sydd ar gael i'n disgyblion.

CEFNOGI EIN DISGYBLION

It is very important to us that Ysgol Bro Pedr pupils feel happy and safe. We understand that things arise from time to time which require additional support. As well as the Heads of Year and Area Leaders who are available to support with wellbeing and progress, there are a number of other channels of support throughout our school from Nursery to Year 13. Here is a taste of the support available to our pupils.

SUPPORTING OUR PUPILS

Perthyn
Belonging

Hapusrwydd
Happiness



HAFAN



YSTAFELL GEFNOGAETH I DDISGYBLION O FLYNYDDOEDD 7-13 YW'R HAFAN. MAE MRS SUSAN DAVIES, CYDLYNYDD YR HAFAN, YN DARPARU CEFNOGAETH YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A MEDDYGOL I'N DISGYBLION AC YN GWEITHIO'N AGOS GYDAG ASIANTAETHAU ALLANOL MEGIS TÎM O AMGYLCH Y TEULU, GOFALWYR IFANC A'R NYRS YSGOL I SICRHAU BOD CEFNOGAETH PWRPASOL AR GAEL I BOB DISGYBL A THEULU. MAE'R CWNSELYDD AREA 43 A'N GWEITHIWR IEUENCTID, MRS NIKKI DAVIES, WEDI EU LLEOLI O FEWN YR HAFAN.

HAFAN IS A SUPPORT ROOM FOR YEAR 7-13 PUPILS. MRS SUSAN DAVIES, OUR HAFAN CO-ORDINATOR, PROVIDES BEHAVIOURAL, EMOTIONAL AND MEDICAL SUPPORT FOR OUR PUPILS AND WORKS CLOSELY WITH EXTERNAL AGENCIES SUCH AS TEAM AROUND THE FAMILY, YOUNG CARERS AND THE SCHOOL NURSE TO ENSURE THAT THERE IS APPROPRIATE SUPPORT AVAILABLE FOR ALL PUPILS AND FAMILIES. THE AREA 43 COUNSELLOR AND OUR YOUTH WORKER, MRS NIKKI DAVIES, ARE LOCATED WITHIN THE HAFAN.



E-BOST / EMAIL

OS NAD YW DISGYBLION YN TEIMLO'N HYDERUS I SIARAD WYNEB I WYNEB GYDAG AELOD O STAFF MAE MODD EBOSTIO'R CYFEIRIAD EBOST SIARAD@BROPEDR.CEREDIGION.SCH.UK.

IF PUPILS FEEL UNSURE ABOUT SPEAKING TO A MEMBER OF STAFF DIRECTLY, THEY CAN EMAIL SIARAD@BROPEDR.CEREDIGION.SCH.UK.



CYMORTH LLES
WELL BEING SUPPORT



MAE MISS CARYS YN CYNORTHWYO GYDA'R GWAITH BUGEILIOL YN YR HAFAN AC MAE HEFYD WEDI HYFFORDDI FEL ELSA ER MWYN CEFNOGI ANGHENION EMOSIYNOL EIN DISGYBLION O FLWYDDYN 7 I 13

MISS CARYS SUPPORTS WITH THE PASTORAL WORK IN HAFAN AND IS ALSO A TRAINED ELSA, SUPPORTING THE EMOTIONAL NEEDS OF PUPILS FROM YEAR 7 TO YEAR 13.



MAE MISS SIONED YN WEITHIWR IEUENCTID YN YR YSGOL SY'N CEFNOGI POBL IFANC I DDATBLYGU EU SGILIAU, EU HYDER A'U LLESIANT. MAE'N GWEITHIO GYDA NHW I FEITHRIN PERTHNASOEDD CADARNHAOL A'U HELPU I WNEUD DEWISIADAU DA AR GYFER Y DYFODOL.

MISS SIONED IS THE SCHOOL YOUTH WORKER, SUPPORTING YOUNG PEOPLE TO DEVELOP THEIR SKILLS, CONFIDENCE, AND WELLBEING. SHE WORKS WITH STUDENTS TO BUILD POSITIVE RELATIONSHIPS AND HELP THEM MAKE INFORMED CHOICES FOR THEIR FUTURE.



MAE MISS NIA WEDI HYFFORDDI FEL ELSA ER MWYN CEFNOGI ANGHENION EMOSIYNOL EIN DISGYBLION O FLWYDDYN MEITHRIN - 6

MISS NIA IS A TRAINED ELSA, SUPPORTING THE EMOTIONAL NEEDS OF PUPILS FROM YEAR MEITHRIN TO YEAR 6.



MAE MISS KARLI WEDI HYFFORDDI FEL ELSA ER MWYN CEFNOGI ANGHENION EMOSIYNOL EIN DISGYBLION O FLWYDDYN 7-13

MISS KARLI IS A TRAINED ELSA, SUPPORTING THE EMOTIONAL NEEDS OF PUPILS FROM YEAR 7 TO YEAR 13.



MAE MISS NINA WEDI HYFFORDDI FEL ARWEINYDD TALKABOUT ER MWYN CEFNOGI EIN DISGYBLION MEITHRIN - 6

MISS NINA IS A TRAINED TALKABOUT CO-ORDINATOR TO SUPPORT THE WELL-BEING OF OUR MEITHRIN - YEAR 6 PUPILS.



MAE MISS RHIAN WEDI HYFFORDDI FEL ARWEINYDD TALKABOUT ER MWYN CEFNOGI ANGHENION EMOSIYNOL DISGYBLION SGILIAU BYWYD

MISS RHIAN IS A TRAINED TALKABOUT CO-ORDINATOR, SUPPORTING THE EMOTIONAL NEEDS OF PUPILS IN LIKFE SKILLS.

BOCS BECSO WORRY BOX



YN OGYSTAL Â'R CYFEIRIAD EBOST MAE BOCS BECSO WEDI EI LEOLI TU ALLAN I'R HWB BUGEILIOL YN Y BRIF DDERBYNFA. I DDISGYBLION O'R MEITHRIN I FLWYDDYN 6 MAE BWYSTFIL PRYDERON YMHOB DOSBARTH DYSGU. CEIR HEFYD BOCS BECSO DIGIDOL AR WEFAN YR YSGOL SYDD YN OSGOI'R ANGEN I GOFIO CYFEIRIAD E-BOST.


AS WELL AS THE EMAIL ADDRESS WE HAVE A WORRY BOX, WHICH IS SITUATED OUTSIDE THE HWB BUGEILIOL ('PASTORAL HUB') IN THE MAIN RECEPTION. FOR PUPILS FROM NURSERY TO YEAR 6 THERE IS A WORRY MONSTER IN EACH CLASSROOM. THERE IS ALSO A DIGITAL WORRY BOX ON THE SCHOOL WEBSITE WHICH AVOIDS THE NEED TO REMEMBER AN EMAIL ADDRESS.



GWEFAN/ WEBSITE

YN DILYN ADBORTH GAN RIENI A DISGYBLION RYDYN NI WEDI CYNNWYS FFURFLEN GEFNOGAETH AR WEFAN YR YSGOL LLE MAE MODD I RIENI, CEIDWAID A DISGYBLION NODI'R ANGEN AM GEFNOGAETH PENODOL.

FOLLOWING FEEDBACK FROM PARENTS AND PUPILS WE HAVE INCLUDED A SUPPORT FORM ON THE SCHOOL WEBSITE WHERE PARENTS, GUARDIANS AND PUPILS CAN NOTE THE NEED FOR SPECIFIC SUPPORT.





DIOGELU SAFEGUARDING

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

YN EIN HYSGOL NI MAE DIOGELU YN UN O'N BLAENORIAETHAU UCHAF

IN OUR SCHOOL SAFEGUARDING IS ONE OF OUR HIGHEST PRIORITIES

Rydyn ni am i Ysgol Bro Pedr fod yn amgylchfyd diogel. Os ydych am drafod unrhyw bryderon neu yn poeni am ddisgybl arall yn yr ysgol ewch i weld un o'r canlynol:

We want Ysgol Bro Pedr to be a safe school environment. If you want to discuss any concerns or if you are worried about another pupil please talk to one of the following people:

MRS KIZZIE GARNER-HUGHES

Swyddog Diogelu Dynodedig
Designated Safeguarding Officer





MRS FFION DAVIES

Dirprwy Swyddog Diogelu
Deputy Safeguarding Officer



MRS ANN HERBERT

Dirprwy Swyddog Diogelu
Deputy Safeguarding Officer

MR JUSTIN DAVIES

Llywodraethwr â chyfrifoldeb am ddiogelu
Governer with reponsibility for safeguarding
DaviesJ2211@hwbcymru.net



MUDIADAU ORGANISATIONS

MAE YNA LU O FUDIADAU SYDD AR GAEL I WRANDO. MAE RHESTRAU O'R RHAIN WEDI EU HARDDANGOS AR DRAWS Y CAMPWS.

THERE IS A WIDE RANGE OF ORGANISATIONS WHO ARE THERE TO LISTEN. LISTS OF THESE ARE DISPLAYED AROUND THE CAMPUS.

CHILDLINE

Mae cwnselwyr Childline yma i helpu unrhyw un o dan 19 oed yn y DU gydag unrhyw fater, boed yn fawr neu'n fach.

Childline's trained counsellors are here to help anyone under 19 in the UK with any issue they're going through, big or small.

SAMARIAID / SAMARITANS

Os ydych chi'n cael amser anodd neu os ydych chi'n poeni am rywun arall, gall y Samariaid helpu.

If you're having a difficult time or if you're worried about someone else, the Samaritans can help.

MEIC

Meic yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru.

Meic is the helpline service for children and young people up to the age of 25 in Wales.

YOUNG MINDS

Mae Young Minds yn darparu strategaethau i bobl ifanc ofalu am eu hiechyd meddwl.

Young Minds provide young people with tools to look after their mental health. .

CWNSELA YN YSGOL
SCHOOL COUNSELLING

RHYWBETH YN EICH POENI? TEIMLO FEL MAE PETHAU YN DECHRAU MYND YN ORMOD? MAE EICH CWNSELYDD YSGOL YMA I WRANDO.....

IS SOMETHING TROUBLING YOU? FEELING LIKE THINGS ARE GETTING TOO MUCH FOR YOU? YOUR SCHOOL COUNSELLOR IS HERE TO LISTEN AND SUPPORT....

SUT I GAEL MYNEDIAD AT GWNSELA
HOW TO ACCESS COUNSELLING


Trafod gyda aelod o staff yn yr ysgol am atgyfeiriad

Discuss a referral with a member of staff



Llenwi ffurflen hynan atgyfeirio

Complete a Self-referral form



Sganio y llun côd yma gyda ffon symudol i hynan atgyfeirio ar-lein.

Scan the picture of the QR code with a smart phone to self-refer online

Gyru ebost i cwnsela@ceredigion.gov.uk


Send an email to cwnsela@ceredigion.gov.uk



SGERTIAU YSGOL
SCHOOL SKIRTS

Hoffem atgoffa disgyblion a rhieni/gofalwyr o'n disgwyliadau o ran gwisg ysgol.
Dylid gwisgo sgertiau ysgol o hyd priodol ar gyfer yr ysgol. Rydym wedi sylwi bod rhai sgertiau, yn enwedig sgertiau Lycra, yn cael eu gwisgo'n eithriadol o fyr. Os na ellir gwisgo'r sgertiau hyn o hyd priodol, nid ydynt yn addas fel rhan o'n gwisg ysgol.
Gofynnwn i rieni/gofalwyr ein cefnogi drwy sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn gwisgo'r wisg ysgol gywir a bod sgertiau o hyd addas drwy gydol y diwrnod ysgol.
Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

We would like to remind pupils and parents/carers of our expectations regarding school uniform.
School skirts should be worn at an appropriate length for school. We have noticed that some skirts, particularly Lycra/stretch-style skirts, are being worn extremely short. If these skirts cannot be worn at an appropriate length, they are not suitable as part of our school uniform.
We ask parents/carers to support us by ensuring that pupils arrive at school wearing the correct uniform and that skirts are of a suitable length throughout the school day.
Thank you for your continued support.



PRYDLONDEB
PUNCTUALITY



Atgoffir yr holl rieni a gofalwyr bod ein diwrnod ysgol yn dechrau'n brydlon am 8:40yb. Mae cyrraedd ar amser yn hynod bwysig gan ei fod yn galluogi disgyblion i ymgartrefu yn y dosbarth, dechrau dysgu ar unwaith a datblygu arferion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.
Yn anffodus, rydym yn parhau i weld nifer o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr. Yn benodol, mae rhai disgyblion sy'n byw yn y dref ac o fewn pellter cerdded hawdd yn cyrraedd yn rheolaidd ar ôl i ddiwrnod yr ysgol ddechrau. Gall colli ychydig funudau hyd yn oed bob bore gronni'n gyflym a chael effaith sylweddol ar ddysgu dros gyfnod y tymor a'r flwyddyn.
Gofynnwn yn garedig i'r holl rieni a gofalwyr ein cefnogi drwy sicrhau bod plant yn gadael cartref yn ddigon buan ac yn cyrraedd yr ysgol cyn 8:40am bob dydd. Drwy gydweithio, gallwn helpu pob disgybl i gael y dechrau gorau posibl i'w dysgu bob bore.
Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

A reminder to all parents and carers that the school day begins promptly at 8:40am. Arriving on time is extremely important as it allows pupils to settle into class, begin learning straight away, and develop positive habits for the future.
Unfortunately, we continue to see a number of pupils arriving late to school. In particular, some pupils who live within the town and are within easy walking distance are regularly arriving after the start of the school day. Missing even a few minutes each morning can quickly add up and have a significant impact on learning over the course of a term and year.
We kindly ask all parents and carers to support us by ensuring that children leave home in plenty of time and arrive at school before 8:40am each day. Working together, we can help every pupil make the best possible start to their learning each morning.
Thank you for your continued support.

DISGWYLIR BOD DISGYBLION YN CYRRAEDD YR YSGOL RHWNG:

PUPILS SHOULD ARRIVE AT SCHOOL BETWEEN:



8:15-8:35

COFRESTRU YN DECHRAU AM:

REGISTRATION STARTS AT:

8:40



NOSON WYBODAETH
INFORMATION EVENING

Diolch i'r rhieni a'r gofalwyr a fynychodd ein Noson Wybodaeth ddiweddar i rieni newydd. Er taw dim ond nifer bach ymunodd â ni, roedd yn gyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth bwysig am ein hysgol, ein disgwyliadau a sut y gallwn gydweithio i gefnogi ein disgyblion.
I'r rhai nad oedd yn gallu mynychu, mae recordiad o'r cyfarfod Teams bellach ar gael ar Team grŵp blwyddyn eich plentyn. Anogwn rieni a gofalwyr i wylio'r recordiad ar amser cyfleus er mwyn sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r wybodaeth a rannwyd.
Diolch, fel bob amser, am eich cefnogaeth a'ch partneriaeth barhaus.

Thank you to the parents and carers who attended our recent New Parents' Information Evening. Although only a small number were able to join us, it was a valuable opportunity to share important information about our school, our expectations and how we can work together to support our pupils.
For those who were unable to attend, a recording of the Teams meeting is now available on your child's year group Team. We would encourage parents and carers to watch the recording at a convenient time to ensure that you are familiar with the information shared.
Thank you, as always, for your continued support and partnership.

RHIENI A GOFALWYR NEWYDD:
GWYLIWCH RECORDIAD O'R NOSON WYBODAETH AR TEAMS GRŴP BLWYDDYN EICH PLENTYN

NEW PARENTS AND CARERS:
CATCH UP VIA A RECORDING OF THE INFORMATION EVENING ON YOUR CHILD'S YEAR GROUP TEAMS

Hwb®

Microsoft Teams

ADRODDIAD LLYWODRAETHWYR I RIENI
GOVERNORS REPORT TO PARENTS

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni bellach ar gael ar wefan yr ysgol.

Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf ac i rannu gwybodaeth am waith ein Corff Llywodraethol a'r ysgol yn ehangach.

Hoffem annog pob rhiant a gofalwr i'w ddarllen, a hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch cyfraniad i gymuned ein hysgol.

SCAN ME!



thank you



We are delighted to share that our Governors' Annual Report to Parents is now available on our school website.

The report provides an opportunity to reflect on the past year and to share information about the work of our Governing Body and the wider school.

We would encourage all parents and carers to have a read, and we would like to thank you for your ongoing support and contribution to our school community.

CYLCH MEITHRIN PONT PEDR

Braf iawn yw cael croesawu wynebau newydd a chyfarwydd i Gylch Meithrin Pont Pedr wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd gyffrous.
Dros yr wythnosau cyntaf, mae ein plant wedi bod yn brysur yn ymgyfarwyddo â'u trefn newydd, dod i adnabod ei gilydd a'n staff a mwynhau'r holl gyfleoedd i chwarae, dysgu ac archwilio.
Mae wedi bod yn hyfryd eu gweld yn ymgartrefu, magu hyder a dod i'r Cylch gyda gwên. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lawn o ddysgu, chwarae, chwerthin a gwneud atgofion hapus gyda'n gilydd!












CYLCH MEITHRIN PONT PEDR

It is wonderful to welcome both new and familiar faces to Cylch Meithrin Pont Pedr as we begin an exciting new year.
Over the first few weeks, our children have been busy settling into their new routine, getting to know one another and our staff, and enjoying all the opportunities to play, learn, and explore. It has been lovely to see them settle in, grow in confidence, and arrive at the Cylch with a smile. We look forward to a year full of learning, playing, laughing, and making happy memories together!









STAFF CYLCH MEITHRIN PONT PEDR



ANNWEN ROBERTS THOMAS - ARWEINYDD / LEADER



KAYLEIGH BATTERN
CYNORTHWYYDD RHAN-AMSER
PART-TIME ASSISTANT



ABIGAIL GREGSON
CYNORTHWYYDD RHAN-AMSER
PART-TIME ASSISTANT

STAFF CYLCH MEITHRIN PONT PEDR



YVONNE MEDFORTH -
CYNORTHWYYDD RHAN-AMSER
PART-TIME ASSISTANT



CRISTAL MARTIN
CYNORTHWYYDD RHAN-AMSER
PART-TIME ASSISTANT



CATHY DAVIES -
CYNORTHWYYDD WRTH GEFN
BANK STAFF ASSISTANT



EMILY MORRIS
CYNORTHWYYDD RHAN-AMSER
PART-TIME ASSISTANT

Y GORAU O'R CORAU

Yn ddiweddar, cyflwynwyd siec i adran gerdd yr ysgol i Mrs Davina Evans ac Iestyn Stephens, yn dilyn llwyddiant ysgubol noson Gorau o'r Corau a gynhaliwyd dros yr haf.
Daeth corau o ardal Llambed ynghyd ar gyfer noson wefreiddiol o gerddoriaeth a chanu, gyda chyfraniad arbennig gan gôr o Sweden. Roedd y digwyddiad yn ddathliad gwych o dalent gerddorol, cydweithio a chymuned, ac fe'i mwynhawyd yn fawr gan bawb a oedd yn bresennol.
Hoffem ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r pwyllgor a fu'n gweithio mor galed i drefnu'r noson, i arweinwyr y corau am eu cydlynu a'u hymroddiad, ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad. Diolch i'ch cefnogaeth hael, mae'r elw o'r noson bellach yn mynd tuag at gefnogi a datblygu gwaith adran gerdd yr ysgol.
Roedd Gorau o'r Corau yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd cymuned yn dod ynghyd i gefnogi'r celfyddydau a phobl ifanc yr ardal.

A cheque was recently presented to the school's Music Department to Mrs Davina Evans and Iestyn Stephens following the tremendous success of the Best of the Choirs concert held during the summer.
The event brought together choirs from across the Lampeter area, as well as a visiting choir from Sweden, for an exciting evening of music and song. The concert was a wonderful celebration of musical talent, collaboration and community spirit, and was enjoyed by all who attended.
Our sincere thanks go to the committee members who worked tirelessly behind the scenes to organise the event, to the choir leaders for their dedication and coordination, and to everyone who came along to support the evening. Thanks to this fantastic support, the proceeds from the concert will now help to support and develop the work of the school's Music Department.
Best of the Choirs was a wonderful example of what can be achieved when a community comes together to celebrate and support the arts and the young people of the area.



GWERSI ARBENIGOL Y CYNRADD
SPECIALIST TEACHING – PRIMARY

Rydym yn hynod ffodus yn y Cynradd i elwa ar arbenigedd a brwdfrydedd ein athrawon yn yr Uwchradd. Mae eu gwybodaeth arbenigol yn cyfoethogi profiadau dysgu ein disgyblion ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu sgiliau a diddordebau newydd.
Drwy gydol y flwyddyn, mae disgyblion yn mwynhau ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys Addysg Gorfforol, Celf, Cerddoriaeth a Ffrangeg. Mae'r gwersi hyn nid yn unig yn cyfoethogi'r cwricwlwm, ond hefyd yn helpu i feithrin hyder, creadigrwydd a chariad at ddysgu.

We are extremely fortunate in the Primary Campus to benefit from the expertise and enthusiasm of our Secondary Campus colleagues. Their specialist knowledge enhances the learning experiences of our pupils and provides valuable opportunities for children to develop new skills and interests. Throughout the year, pupils enjoy a wide range of activities delivered by secondary teachers, including Physical Education, Art, Music and French. These lessons not only enrich the curriculum but also help to inspire confidence, creativity and a love of learning.





GWERSI NOFIO
SWIMMING LESSONS

Mae gwersi nofio wedi dechrau ar gyfer disgyblion Dosbarth Olwen, ac rydym yn falch iawn o weld pa mor hapus a brwdfrydig yw'r plant. Mae'r sesiynau'n rhoi cyfle gwych iddynt ddatblygu sgiliau nofio pwysig, magu hyder yn y dŵr ac, yn bwysicaf oll, mwynhau dysgu mewn amgylchedd newydd a chyffrous.
Mae'r plant wedi gwneud dechrau ardderchog, ac edrychwn ymlaen at weld eu cynnydd dros yr wythnosau nesaf.

Y TYMOR HWN, MAE DISGYBLION DOSBARTHIADAU HATHREN A BRANWEN YN MYNYCHU GWERSI NOFIO AR DDYDD LLUN, TRA BOD DISGYBLION DOSBARTH OLWEN YN NOFIO AR DDYDD MAWRTH

Swimming lessons have now begun for pupils in Olwen Class, and we are delighted to see how happy and enthusiastic the children are. These sessions provide a wonderful opportunity for them to develop important swimming skills, build confidence in the water and, most importantly, enjoy learning in a new and exciting environment.
The children have made an excellent start, and we look forward to seeing their progress over the coming weeks.

THIS TERM, PUPILS IN HATHREN CLASS AND BRANWEN CLASS ATTEND SWIMMING LESSONS ON MONDAYS, WHILE PUPILS IN OLWEN CLASS HAVE THEIR SWIMMING LESSONS ON TUESDAYS



GWASANAETHAU'R CYNRADD
PRIMARY ASSEMBLIES

Rydym yn cynnal gwasanaethau ysgol ddwywaith yr wythnos, gyda gwasanaeth arbennig ar ddydd Gwener i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion. Mae'r gwasanaethau hyn yn gyfle gwych i gydnabod ac anrhydeddu'r gwaith caled, yr ymroddiad a'r talentau sydd i'w gweld ar draws ein hysgol.

Rydym yn annog y plant i rannu eu llwyddiannau gyda ni, boed hynny ar y cae chwaraeon, ym myd cerddoriaeth a chanu, mewn clybiau neu weithgareddau cymunedol, neu unrhyw gamp arall y maent yn falch ohoni. Mae'n hyfryd gweld y disgyblion yn dathlu cyflawniadau ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd fel cymuned ysgol. Mae pob llwyddiant yn werth ei ddathlu!

We hold school assemblies twice a week, with a special assembly every Friday to celebrate the achievements of our pupils. These assemblies provide a wonderful opportunity to recognise and honour the hard work, dedication, and talents demonstrated throughout our school.

We encourage children to share their successes with us, whether on the sports field, in music and singing, through clubs and community activities, or in any other achievement they are proud of. It is always inspiring to see pupils celebrating one another's accomplishments and supporting each other as a school community.

Every success is worth celebrating, and we look forward to hearing about many more achievements as the year progresses.





YR ARDD WYLLT / OUR WILD GARDEN

Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 brynhawn lles arbennig yn yr Ardd Wyllt. Bu'r plant yn mwynhau'r cyfle i dreulio amser yn yr awyr agored, archwilio natur a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyliog a thawel.

Roedd hi'n hyfryd gweld pawb yn mwynhau'r profiad ac yn elwa ar amser gwerthfawr yn yr awyr iach. Edrychwn ymlaen at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Ardd Wyllt fel rhan o'n gweithgareddau lles yn ystod y flwyddyn.

Year 1 and 2 pupils enjoyed a special wellbeing afternoon in the Wild Garden. The children relished the opportunity to spend time outdoors, explore nature, and take part in a range of enjoyable and calming activities.

It was wonderful to see everyone enjoying the experience and benefiting from valuable time in the fresh air. We look forward to having more opportunities to use the Wild Garden as part of our wellbeing activities throughout the year.












DIWRNOD OWAIN GLYNDWR DAY


Bu dosbarth Hathren yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr gyda nifer o weithgareddau difyr a diddorol. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu mwy am fywyd a hanes Owain Glyndŵr, un o arwyr mwyaf adnabyddus Cymru, a'i gyfraniad pwysig i hanes ein cenedl.

Hathren Class celebrated Owain Glyndŵr Day through a range of engaging and enjoyable activities. Pupils had the opportunity to learn more about the life and legacy of Owain Glyndŵr, one of Wales's most famous heroes, and his important contribution to the history of our nation.











YMAELODAETH YR URDD
URDD MEMBERSHIP

Rydym yn annog ein disgyblion i fod yn aelodau o'r Urdd eleni. Mae aelodaeth yn cynnig cyfleoedd arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau, cystadlaethau, tripiau a phrofiadau diwylliannol unigryw. Mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau newydd, datblygu sgiliau a bod yn rhan o gymuned fywiog a chefnogol.

- Pris aelodaeth 2026-27 yw £13.50 i unigolyn; £30 ar gyfer teulu gyda 3 neu fwy o blant. urdd.cymru
- Mae gost £1 yn unig i'r rheiny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol (e.e. Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Treth Plant, ac ati) er mwyn sicrhau bod yr Urdd yn hygyrch i bawb
- Mae'r Urdd yn defnyddio system ar-lein o'r enw "Y Porth" i reoli aelodaeth - cofrestru, adnewyddu ac ati

We encourage our pupils to be members of the Urdd this year. Membership offers special opportunities to take part in activities, competitions, trips and unique cultural experiences. It's a great way to make new friends, develop skills and be part of a vibrant and supportive community.


- The price of membership for 2026-27 is £15.50 for an individual; £30 for a family with 3 or more children
- There is only a £1 cost for those who receive financial support (e.g. Income Support, Jobseeker's Allowance, Child Tax Credit, etc.) to ensure that the Urdd is accessible to all
- The Urdd uses an online system called "Y Porth" to manage membership - registration, renewal etc.

Adran yr Urdd Llanbedr Pont Steffan

DECHRAU 22/9/26
4.45-5.45
BLWYDDYN 3-6

BEGINS 22/9/26
YEARS 3-6

An evening of fun games to welcome children from the area



Noson o gemau hwyl i groesawu plant y fro

Ble - Ysgol Bro Pedr
Safle Cynradd

TWRNAMAINT PÊL DROED DYFFRYN CLEDLYN
FOOTBALL TOURNAMENT

Da iawn i bawb a fu'n chwarae pel droed yn nhwrnamaint Dyffryn Cledlyn. Cydweithio tîm arbennig a sgiliau da. Llongyfarchiadau i fechgyn 5 a 6 wnaeth gyrraedd y rownd gyn derfynol.

Well done to all the boys and girls who played brilliant football in the Dyffryn Cledlyn tournament this week. Excellent teamwork and skills shown by all. Congratulations to our year 5 and 6 boys for reaching the semi-finals.









FFILMIO CÂN EIN HYSGOL
FILMING OUR SCHOOL SONG

Dydd Mawrth, bu grŵp o ddisgyblion yn brysur yn ffilmio fideo ar gyfer cân newydd yr ysgol, "Bro Pedr yn Ein Calon", a grewyd fel rhan o brosiect Cynefin a'r Gân, Cardi Iaith. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i arddangos balchder ein dysgwyr yn eu hysgol, eu cymuned a'r Gymraeg. Hoffem ddiolch yn arbennig i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau ac i'r disgyblion a gymerodd ran yn y ffilmio. Roedd eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad yn amlwg drwy gydol y dydd.

Mae "Bro Pedr yn Ein Calon" ar gael nawr i'w ffrydio a'i lawrlwytho ar Spotify, ac edrychwn ymlaen at rannu'r fideo gorffenedig gyda chymuned yr ysgol yn fuan. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at brosiect mor arbennig sy'n dathlu ein hysgol, ein hardal a'n hiaith.







On Tuesday, a group of pupils took part in filming a music video for the school's new song, "Bro Pedr Yn Ein Calon", which was created as part of the Cynefin Cardi Iaith project. The day provided a fantastic opportunity for our learners to showcase their pride in their school, community, and the Welsh language.

We would like to extend our sincere thanks to everyone involved in organising the project and to all the pupils who participated in the filming. Their enthusiasm, commitment, and energy were evident throughout the day.

"Bro Pedr Yn Ein Calon" is available to stream and download on Spotify, and we look forward to sharing the completed music video with the school community very soon. Thank you to everyone who contributed to such a special project celebrating our school, our local area, and our language.






LLANGRANNOG BL 7 YR 7















LLANGRANNOG

Cafodd blwyddyn 7 dridiau arbennig yn Llangrannog. Diolch i flwyddyn 12 am fod yn swogs gwych ac i'r staff am drefnu'r daith.

Year 7 had 3 fantastic days in Llangrannog. Many thanks to year 12 for being great swogs and to the staff for organising the trip.

"Roedd yn bleser gweld y plant yn mwynhau cymdeithasu gyda ffrindiau hen a newydd ac yn ymgymryd a heriau newydd. The trip provided valuable educational opportunities, including outdoor adventures, and team-building exercises. Our students displayed remarkable personal growth during the trip. Many of them stepped out of their comfort zones, developed resilience, and built lasting friendships."

Mrs Rhian Morris

"Joies i mas draw yn enwedig cymryd rhan yn y gweithgareddau allanol" Disgybl bl7

"It was so much fun, I'd love to go again. I'm really grateful to the teachers for taking us." Year 7 pupil

"Roeddwn yn nerfus cyn mynd ond roedd y trip yn wych. Dwi wedi cymysgu gyda nifer fawr iawn o ffrindiau newydd." Disgybl bl 7

DIWRNOD ANWYTHO'R CHWECHED

Cafodd disgyblion Blwyddyn 12 a 13 ddiwrnod llawn o weithdai a gweithgareddau fel rhan o Ddiwrnod Anwytho'r Chweched Dosbarth. Roedd y diwrnod yn gyfle iddynt ddod i adnabod ei gilydd, rhannu syniadau a datblygu eu hyder a'u sgiliau.


Cyflwynodd Xplore! Science Gêm Fasnach Ryngwladol, a oedd yn rhoi cyfle i'r disgyblion gydweithio a gwneud penderfyniadau. Heriodd The Big Science Project y disgyblion i feddwl am syniad busnes a'i ddatblygu drwy weithdy entrepreneuriaeth. Helpodd Andrew Filmer a Margaret Ames o Brifysgol Aberystwyth y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a'u hyder. Yn y gweithdy 'Yr Ymennydd Dwyieithog', bu Dr Alys Jepson yn edrych ar effaith dwyieithrwydd ar yr ymennydd, gyda'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn arbrofion seicolegol. Cafodd y disgyblion gyfle i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau a sgiliau pwysig eraill ar gyfer y dyfodol yng ngweithdy Sgiliau'r Dyfodol, dan arweiniad Tanya Jones a'r Tîm Mentora Cenedlaethol. Roedd digon o gyfle i gymdeithasu hefyd, gydag artist yn creu portreadau o'r disgyblion drwy gydol y dydd. Amser cinio, gwnaeth pawb fwynhau bwyd gan Halen a Pupur, a hufen iâ Llaeth Llanfair i ddilyn.

Diolch yn fawr i Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru am ariannu'r diwrnod ac am weithio gyda ni i gynnig y cyfleoedd hyn i'n disgyblion. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at wneud y diwrnod yn un mor bleserus a gwerth chweil!













6TH FORM INDUCTION DAY

Year 12 and 13 pupils took part in our Sixth Form Induction Day, with a varied programme of workshops and activities designed to build confidence and encourage collaboration. Working in mixed Year 12 and 13 groups, pupils had the opportunity to get to know each other, share ideas and take on a range of challenges together. Xplore! Science delivered the International Trade Game, putting decision-making and adaptability into practice, while The Big Science Project challenged pupils to turn their ideas into a business through an interactive entrepreneurship workshop. Andrew Filmer and Margaret Ames from Aberystwyth University helped pupils develop their communication skills. In Bilingual Brain, Dr Alys Jepson introduced pupils to the fascinating effects of bilingualism on the brain through a series of psychological experiments. Tanya Jones and the National Mentoring Team delivered Skills for the Future, with practical activities focusing on problem-solving and skills that will support pupils beyond Sixth Form. There were also plenty of opportunities for team building and socialising, with a caricaturist creating individual portraits throughout the day. At lunchtime, everyone enjoyed food from Halen a Pupur Food Van, followed by a gelato treat from Llaeth Llanfair.


A big thank you to Reaching Wider North and Mid Wales for funding the day and working with us to provide such a valuable range of opportunities for our pupils. Thank you to everyone who contributed to making the day such an enjoyable and worthwhile experience!



















CORNEL Y CHWECHED
6TH FORM CORNER

Diolch yn fawr iawn i Donna Williams o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am gynnal gweithdy defnyddiol iawn gyda disgyblion Blwyddyn 13 ddydd Gwener. Aeth Donna drwy'r broses o gwblhau cais UCAS gyda'r disgyblion, yn ogystal â rhoi cyngor ac arweiniad ar sut i ysgrifennu datganiad personol effeithiol.

Thank you to Donna Williams from the University of Wales Trinity Saint David for delivering a very useful workshop with our Year 13 students on Friday.
Donna guided students through the process of completing their UCAS application, as well as providing advice and guidance on how to write an effective personal statement.









CYFLEOEDD GWIRFODDOLI
VOLUNTEERING OPPORTUNITIES

Ar ddydd Iau, 17eg o Fedi, ymwelodd CAVO â'r ysgol i siarad â disgyblion Blwyddyn 12 am fanteision gwirfoddoli fel rhan o'r 15 awr o gyfranogiad cymunedol sy'n ofynnol ar gyfer y Fagloriaeth Sgiliau Cymru. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Denmark Farm, Long Wood Community Woodland, RAY Ceredigion a CERED i gyflwyno'r amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i fyfyrwyr.

Roedd y sesiwn yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig, gan roi cipolwg gwerthfawr i'r myfyrwyr ar sut y gall gwirfoddoli eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd, ennill profiad ymarferol, magu hyder a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned leol.

Cyflwynwyd ystod eang o gyfleoedd, gan alluogi'r myfyrwyr i archwilio gwahanol ffyrdd o gwblhau eu horiau gwirfoddoli wrth ennill profiad gwerthfawr a fydd yn eu cefnogi yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r cyfleoedd a gyflwynwyd, anogir myfyrwyr i gysylltu â Mrs Christina Garside yn yr ysgol neu â swyddfa CAVO yn Llanbedr Pont Steffan.

On Thursday 17th September, CAVO visited the school to speak with Year 12 students about the benefits of volunteering as part of the 15 hours of community participation required for the Welsh Baccalaureate. CAVO invited representatives from Denmark Farm, Long Wood Community Woodland (Longwood Forest), RAY Ceredigion and CERED to present a range of volunteering opportunities available to students. The session was both informative and inspiring, giving students valuable insight into how volunteering can help them develop new skills, gain practical experience, build confidence and make a positive contribution to their local community. A variety of opportunities were showcased, enabling students to explore different ways of completing their volunteering hours while gaining worthwhile experience for the future. For further information about any of the volunteering opportunities available, students are encouraged to contact Mrs Christina Garside at the school or the CAVO Office in Lampeter.











CYNGHORYDD GYRFA
CAREERS ADVISER

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Iona Lloyd-Davies, ein Cynghorydd Gyrfaoedd o Gyrfa Cymru, sy'n gweithio'n agos gyda dysgwyr Ysgol Bro Pedr i'w cefnogi wrth gynllunio eu dyfodol.

Mae Iona yn chwarae rhan bwysig wrth helpu dysgwyr i archwilio'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt ar ôl ysgol. Trwy gyfweliadau un-i-un, sesiynau grŵp, digwyddiadau gyrfaoedd a chyngor ar addysg bellach, prentisiaethau a llwybrau cyflogaeth, mae'n helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf.

Boed gan ddisgyblion syniad clir o'u nodau gyrfa neu eu bod newydd ddechrau ystyried eu hopsiynau ar gyfer y dyfodol, mae Iona wrth law i gynnig cyngor diduedd, anogaeth a chefnogaeth ymarferol. Mae ei harweiniad yn helpu dysgwyr i adnabod eu cryfderau, eu diddordebau a'u dyheadau, gan eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau sydd o'u blaenau.

Mae addysg gyrfaoedd yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am yr arbenigedd a'r gefnogaeth y mae Iona yn eu cynnig i gymuned Ysgol Bro Pedr.



E-BOST/E-MAIL: IONA.LLOYD-DAVIES@CAREERSWALES.LLYW.CYMRU

RHIF FFÔN/DIRECT LINE: 02920 84 6366

YN YR YSGOL / IN SCHOOL - DYDD LLUN/MONDAY / GWENER/FRIDAY

We are delighted to introduce Iona Lloyd-Davies, our dedicated Careers Wales Careers Adviser, who works closely with pupils at Ysgol Bro Pedr to support them in planning for their future.

Iona plays a vital role in helping learners explore the wide range of opportunities available to them after school. Through one-to-one guidance interviews, group sessions, careers events and advice on further education, apprenticeships and employment pathways, she helps pupils make informed decisions about their next steps.

Whether a learner already has a clear career goal or is just beginning to think about their future, Iona is on hand to offer impartial advice, encouragement and practical support. Her guidance helps pupils identify their strengths, interests and aspirations, ensuring they are well prepared for the opportunities and challenges ahead.

Careers education is an important part of our commitment to preparing young people for life beyond school, and we are grateful for the expertise and support that Iona brings to our school community.

We encourage all pupils to take advantage of the opportunities available through Careers Wales and to seek guidance from Iona as they begin to shape their future pathways.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

HTTPS://GYRFACYMRU.LLYW.CYMRU

CYNGOR GYRFAU – 6ED DOSBARTH
CAREERS ADVICE – 6TH FORM

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Gyrfa Cymru yn cynnal cyfres o nosweithiau rhieni a gofalwyr ar lein, wedi'u cynllunio i roi cyfle i chi drafod dyfodol eich plentyn gyda chynghorydd gyrfa cymwys. Mae ein cynghorwyr yn cynnig canllawiau wedi'u teilwra ar opsiynau gyrfa a sut allwch chi gefnogi'ch plentyn orau i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf. Mae apwyntiadau 20 munud drwy Microsoft Teams ar gael rhwng 4pm a 7pm, ddydd Mercher 30 Fedi, y gallwch eu harchebu wrth sganio'r cod qr isod i'r rhai sydd â phlant yn y chweched ddosbarth. Disgwylir y bydd galw mawr am apwyntiadau a byddant yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

We are pleased to announce that Careers Wales will be hosting a series of online parents' and carers' evenings, designed to give you the chance to discuss your child's future with a qualified careers adviser. Our advisers offer tailored guidance on career options and how you can best support your child to make well-informed decisions about their next steps. 20-minute appointments via Microsoft Teams are available between 4pm and 7pm on Wednesday 30 September for those with children in sixth form which you can book here. Appointments are expected to be in high demand and will be allocated on a first-come, first-served basis.

SCAN ME

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Noson Rhieni / Gofalwyr Ar-lein

Dydd Mercher 30 Fedi 2026, 4pm-7pm



Apwyntiadau 20 munud
ar gael ar Teams

Ar gael i rieni / gofalwyr dysgwyr yn y chweched ddosbarth.

Siaradwch â chynghorydd gyrfa am lwybrau gyrfa eich plentyn a'r opsiynau ôl-16.

Dilynwch y ddolen i archebu

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Online Parents / Carers Evening

Wednesday 30 September 2026, 4pm-7pm



20-minute appointments available on Teams

Available for parents / carers of learners in sixth form.

Chat to a careers adviser about your child's career pathways and post-16 options.

Follow this link to book

CHWARAEON/SPORT

PÊL RWYD BLWYDDYN 8/ YEAR 8 NETBALL - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - LILI GWEN JONES



HOCI HŶN / SENIOR HOCKEY - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - CADI SION JONES



CHWARAEON/SPORT

IACH AC HYDERUS

PÊL RWYD BLWYDDYN 10/ YEAR 10 NETBALL - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - CERYS JONES



HOCI BLWYDDYN 9/ YEAR 9 HOCKEY - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - TEEGAN STEARN



CHWARAEON/SPORT

RYGBI BLWYDDYN 8/ YEAR 8 RUGBY - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - SEB GREGSON



RYGBI BLWYDDYN 10/ YEAR 10 RUGBY - ENNILL

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - JAMES LEWIS



CYNRYCHIOLI CEREDIGION
REPRESENTING CEREDIGION

CYMDEITHAS PELDROED
YSGOLION CEREDIGION SCHOOLS
FOOTBALL ASSOCIATION

BECHGYN D13 / U13 BOYS
CARFAN 26-27 SQUAD

Sebastian Alberski-Douglas - Ysgol Bro Pedr
Osian Billing - Ysgol Penglais
Charlie Colman - Ysgol Penglais
Sam Colman - Ysgol Penglais
Cai Davies - Ysgol Uwchradd Aberteifi
Celt Davies - Ysgol Bro Pedr
Jonah Davies - Ysgol Uwchradd Aberteifi
Tomi Finn Draper-Jones - Ysgol Uwchradd Aberteifi
Seb Gregson - Ysgol Bro Pedr
Wil Guilford - Ysgol Bro Teifi
Owi John - Ysgol Gyfun Penweddig
Elis Griff Jones - Ysgol Bro Pedr
Lucas Sion Jones - Ysgol Bro Pedr
Macsen Ladbrook - Ysgol Uwchradd Aberteifi
Osian Powell Jones - Ysgol Gyfun Penweddig
Deian Williams - Ysgol Gyfun Aberaeron
Llewelyn Williams - Ysgol Bro Pedr
Ned Williams - Ysgol Gyfun Penweddig





Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn o Ysgol Bro Pedr a gynrychiolodd tîm Dan 13 Ceredigion nos Wener ddiwethaf mewn gêm yn erbyn Afan Nedd ar gae cartref Llambed.
Bu'r tîm yn perfformio'n arbennig o dda, gan sicrhau buddugoliaeth wych o 5-1.
Rydym yn hynod falch o'ch cyflawniadau ac yn dymuno pob lwc i chi gyd wrth ichi barhau i gynrychioli Ceredigion yn y gemau sydd i ddod. Da iawn fechgyn

A huge congratulations to the Ysgol Bro Pedr pupils who represented the Ceredigion U13 Boys' team on Friday evening in their home fixture against Afan Nedd in Lampeter.
The team produced an outstanding performance, securing an impressive 5-1 victory. Well done to all the players involved in this excellent win, and best wishes for the rest of the season. We are proud of you all!

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Coffi a Chlonc

Pwy? Rhieni Bl.7

Cyfle i chi ymweld â ni ym Mro Pedr am: sgwrs anffurfiol, cwrdd â'r tîm bugeiliol ac i ofyn unrhyw gwestiynau.

AMSER?
2.00 - 4.30

7N - 06.10.26
7D - 06.10.26
7P - 07.10.26
7G - 07.10.26

BLE?
NEUADD

Gorau chwarae CYD chwarae

wynr1@bropedr.ceredigion.sch.uk

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Coffee + Chat

Who? Year 7 Parents

An opportunity for you to visit us in Bro Pedr for: an informal chat, meet the pastoral team and to ask any questions.

TIME?
2.00 - 4.30

7N - 06.10.26
7D - 06.10.26
7P - 07.10.26
7G -07.10.26

WHERE?
HALL

Together, Stronger

wynr1@bropedr.ceredigion.sch.uk

DYDDIADAU PWYSIG
IMPORTANT DATES



Rhaid ymaelodi gyda'r Urdd i fynychu
Must be an Urdd member to attend
urdd.cymru/ymuno

Aelodaeth £1 ar gael i'r rheiny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol
£1 membership for those receiving income support

Urdd

EISTEDDFODAU RHANBARTH

CEREDIGION

Eisteddfodau	Dyddiad Date	Lleoliad Location
Eisteddfod Offerynnol	18-02-2027	Ysgol Dyffryn Aeron
Eisteddfod Cylch Aeron	23-02-2027	Ysgol Henry Richard, Tregaron
Eisteddfod Cylch Ystwyth	25-02-2027	Ysgol Penglais, Aberystwyth
Eisteddfod Cylch Teifi	02-03-2027	Ysgol Bro Pedr, Llambed
Eisteddfod Dawns a Theatr	04-03-2027	Ysgol Bro Teifi
Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd	12-03-2027	Pafiliwn Pontrhydfendigaid
Eisteddfod Rhanbarth Cynradd	13-03-2027	Pafiliwn Pontrhydfendigaid

Dyddiadau Cau Cofrestru Cenedlaethol/National Deadlines:

20/01/27	Dawns & Offerynnol / Dance and Instrumental
03/02/27	Cyst. Llwyfan & Maes / Stage Competitions
03/03/27	Gwaith Cartref / Homework
12/04/27	Celf, Dylunio a Technoleg / Art, Design & Technology

Urdd Ceredigion @urddsirceredigion urdd.cymru



DYDDIAD PWYSIG
IMPORTANT DATE

Ceredigion

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2029

CYFARFOD SEFYDLU PWYLLGORAU

21/09/2026

6yh

Theatr Felinfach

Croeso i bawb! / All welcome!

Cofiwch enwebi yma
Remember to nominate here

CYMUNED
COMMUNITY

CERDDORIAETH BYW
LIVE MUSIC

STONDINAU
STALLS

CREFFT
CRAFT

DATHLU
CELEBRATE

GWEITHDAI
WORKSHOPS



Theatr Felinfach
Cyfeillion · Friends

GWYL CANOL UNMAN

Pwdin Reis

Bwca

19.09.26

10:00 - HWYR/LATE

AM DDIM / FREE ENTRY

THEATR FELINFACH

DIWRNOD I'R TEULU / A DAY FOR THE FAMILY



Theatr Felinfach

Caru·Love Ceredigion

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



DIGWYDDIAD CYMUNEDOL
COMMUNITY EVENT

AMSERLEN SESIYNAU GWYL CANOL UNMAN
SESSION SCHEDULE

GWYL CANOL UNMAN

Amser / Time	Digwyddiad / Event	Lleoliad
10:30 - 11:30	**Tic Toc:** 0 - 6 oed + Rhieni / Gwarcheidwaid 0 - 6 yrs + Parents / Guardians	Gwndwn
	Gweithdy Tecstilau / Textiles Workshop: Pawb (Teuluoedd, unigolion, bob oedran) Everyone (Families, individuals, all ages)	Adran Wisgoedd / Costume Department
	Sesiwn Actifiti Session gysda/with Lleucu Ifans: 6 - 11 oed	Llwyfan y Theatr / Theatre Strage
11:30 - 12:30	**Gweithdy celf gyda Gwenllian Beynon / Art workshop with Gwenllian Beynon:** Pawb (Teuluoedd, unigolion, bob oedran) Everyone (Families, individuals, all ages)	Pabell gelf / Art tent
12:00 - 12:45	**Adweitheg i Fabanod / Reflexology for Babies:** 0 - 3 oed + Rhieni / Gwarcheidwaid 0 - 3 yrs + Parents / Guardians	Gwndwn
	Clocsio / Clog dancing: 11 - 18 oed / 11 - 18 yrs	Llwyfan y Theatr / Theatre Stage
13:15 - 14:15	**Sesiwn ddawns gyda Sioned Allan / Dance session with Sioned Allan:** 7 - 11 oed / 7 - 11 yrs	Gwndwn
	Sialens Sioe Gerdd / Musicals Challenge: 11 - 18 oed / 11 - 18 yrs	Llwyfan y Theatr / Theatre Stage
14:45 - 15:30	**Am Ddrama:** Sesiwn i ddysgwyr Cymraeg / Welsh Learners Session: 18+ Oed/Yrs	Gwndwn
	Sesiwn Theatr / Theatre Session: 11 - 18 oed / 11 - 18yrs	Llwyfan y Theatr / Theatre Stage

19.09.26 - SESIYNAU I GYD AM DDIM / ALL SESSIONS FREE

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Noson Gymorth TGAU

Dyfodol disglair

MAE RÔL Y CARTREF YN BWYSIG!

Mae ymchwil yn dangos bod disgyblion yn llawer mwy tebygol o lwyddo yn yr ysgol pan mae'r cartref yn rhan o'r daith addysg.

At sylw rhieni/gwarcheidwaid **Blwyddyn 11**

Beth i ddisgwyl?

- Pwysigrwydd TGAU
- Sgiliau astudio effeithiol
- Pwysigrwydd lles
- Bywyd y tu hwnt i TGAU

Ymunwch â ni yn Neuadd yr Ysgol

Nos Fawrth 22ain o Fedi 2026 5:00yh

gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

A fo ben bid bont

Ysgol Bro Pedr

A fo ben bid bont

GCSE Support Evening

A brighter future

SUPPORT FROM HOME IS IMPORTANT!

Research has proven that support from the home can improve pupil attainment in school.

For the attention of **Year 11** *parents/guardians*

What to expect?

- The importance of GCSEs
- Effective Study Skills
- The importance of Wellbeing
- Life beyond GCSEs

Join us in the School Hall

Tuesday
22nd September 2026
5:00pm

gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

A fo ben bid bont

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Noson Llwybrau Llwyddiannus Blwyddyn 12

Successful Pathways

Year 12 Information Evening

Gweledigaeth Vision

Ymdrech Effort **Systemau** Systems

Ymarfer Practice **Agwedd** Attitude



Disgwyliadau'r Chweched
Sixth Form Expectations

Cyfleoedd yn y Chweched
Opportunities in the Sixth Form

Gwybodaeth am gefnogaeth
How to access support

Nos Iau
24 Medi 2026
Thursday
24 September 2026

5 o'r gloch
5pm

Neuadd yr Ysgol
School Hall

A fo ben bid bont

29/09/2026

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Noson Groeso Blwyddyn 5&6
Year 5&6 Welcome Evening

Neuadd Ysgol Bro Pedr Hall

- Disgyblion Bro Pedr Pupils: 5:30 o'r gloch/pm
- Disgyblion y Clwstwr/Cluster Pupils: 5:00 o'r gloch/pm

Croeso i bawb
Everyone welcome







Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol ar
For more information contact the school on:
gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk



SEREN YR WYTHNOS
STAR OF THE WEEK









SEREN YR WYTHNOS
STAR OF THE WEEK









CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS









CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS









COFIWCH/REMEMBER

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
21.9.26	Taith 12/13 Ffiseg - Prifysgol Abertawe Yr 12/13 Swansea University Physics Masterclass Trip	12/13
22.9.26	Gweithdy Cyfansoddwyr Ifanc Dyfed - Blwyddyn 9 Dyfed Young Composers' Workshop	
22.9.26	Noson Gymorth Blwyddyn 11 am 5yp yn ein Neuadd Year 11 Support Evening @ 5pm in our Hall	11
23.9.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Bro Teifi Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Bro Teifi	7-13
24.9.26	Noson Gymorth Blwyddyn 12 am 5yp yn ein Neuadd Year 12 Support Evening @ 5pm in our Hall	12
25.9.26	Twrnamaint Pêl Droed Ceredigion Football Tournament	
29.9.26	Noson Agored Blwyddyn 5 a 6 Year 5 and 6 Open Evening	5 & 6
30.9.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Penweddig Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Penweddig	7-13
2.9.26	Twrnamaint Rygbi Blwyddyn 9 Aberaeron Year 9 Rugby Tournament	9
6.10.26	Coffi a Chlonc Blwyddyn 7 / Year 7 Chat and Coffee	7
7.10.26	Coffi a Chlonc Blwyddyn 7 / Year 7 Chat and Coffee	7
7.10.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Aberteifi Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Aberteifi	7-13
8-9.10.26	Taith Amaeth / Agriculture Trip	11
9.10.26	Twrnamaint Rygbi Blwyddyn 7 Year 7 Rugby Tournament	7
13.10.26	Pêl Droed Cymysg yr Urdd Blwyddyn 3 a 4 Year 3 and 4 Mixed Football	3 & 4
14.10.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Henry Richard Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Henry Richard	7-11
15.10.26	Diwrnod Paratoi'r Ffordd (Cyfweliadau Ffug) Blwyddyn 11 Year 11 Paving the Way (Mock Interview Day)	11

NOSWEITHIAU RHIENI / PARENTS EVENINGS

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
6.10.26	Coffi a Chlonc / Coffe and Chat 7 Dewi a Non	7
7.10.27	Coffi a Chlonc / Coffe and Chat 7 Gwenog a Pedr	7
20.10.26	Noson Rieni Blwyddyn 11 - Neuadd/Gampfa Year 11 Parents Evening - Hall / Gym	11
20.10.26	Noson Rieni Meithrin - Blwyddyn 2 Meithrin - Year 2 Parents Evening	Meithrin - 2
21.10.26	Noson Rieni Blwyddyn 3-6 Year 3-6 Parents Evening	3-6
10.11.26	Noson Rieni Blwyddyn 13 - Neuadd / Gampfa Year 13 Parents Evening - Hall / Gym	13
10.11.26	Coffi a Chlonc Sgiliau Bywyd a Chanolfan y Bont Coffee and Chat - Life Skills and Canolfan y Bont 2.30-4.30	Sgiliau Bywyd Canolfan y Bont
1.12.26	Noson Rieni Blwyddyn 12 - Neuadd / Gampfa Year 12 Parents Evening - Hall / Gym	12
12.1.27	Noson Dewisiadau Blwyddyn 11 / Year 11 Options Evening	11
2.2.27	Noson Dewisiadau TGAU - Blwyddyn 9 Year 9 - Choices Evening - Year 9	9
2.2.27	Noson Rieni Meithrin - Blwyddyn 2 Meithrin - Year 2 Parents Evening	Meithrin - 2
3.2.27	Noson Rieni Blwyddyn 3-6 Year 3-6 Parents Evening	3-6
16.2.27	Noson Rieni Blwyddyn 10 Year 10 Parents Evening	10
6.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 9 Year 9 Parents Evening	9
20.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 7 Year 7 Parents Evening	7
4.5.27	Noson Rieni Blwyddyn 8 Year 8 Parents Evening	8
22.6.27	Coffi a Chlonc Sgiliau Bywyd a Chanolfan y Bont Coffee and Chat - Life Skills and Canolfan y Bont 2.30-4.30	Sgiliau Bywyd Coffi a Chlonc

PETHAU PWYSIG / IMPORTANT DATES

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
21.10.26	Gwlad yr Iâ / Iceland	
13.11.26	Diwrnod Plant Mewn Angen / Children in Need Day	Pawb / All
17.11.26	Diwrnod Sanau Od / Odd Socks Day	Pawb / All
8-10.12.26	Sioe Uwchradd - School of Rock - Secondary School Show	7-13
10.12.26	Diwrnod Siwmper Nadolig	Pawb / All
14.12.26	Taith Sgio / Skiing Trip	
4.2.27	Pontio Blwyddyn 5 / Year 5 Bridging Day	5
14.4.27	Taith Breswyl Glanllyn Blwyddyn 6 / Year 6 Resedential Trip Glanllyn	6
30.4.27	HMS / INSET DAY	Pawb / All
26.2.27	Eisteddfod Ysgol yr Adran Iau / Junior School Eisteddfod	Meithrin - 6
28-29.6.27	Pontio Blwyddyn 6 / Year 6 Bridging Day	6
6-7.7.27	Eisteddfod Ysgol Uwchradd	7-13
8.7.26	Pigion Pedr - Neuadd Uwchradd	

IMPORTANT DATES

DYDDIADAU PWYSIG

SGWRS GYDA'R PENNAETH
HEADTEACHER'S SURGERY

Bob dydd Mawrth rhwng 3:30yp a 5:30yp

Derbynfa Campws Uwchradd

NID oes angen apwyntiad.



Every Tuesday between 3:30pm and 5:30pm

Secondary Campus Reception

No appointment necessary.

COFIWCH/REMEMBER

Ceisiadau i fforymau'r Senedd erbyn dydd Mercher, 23ain o Fedi.

Senedd Forum applications by Wednesday, 23rd September

Fforwm Iechyd a Lles

Fforwm Dyngarol

Fforwm Cydraddoldeb

Fforwm Blwyddyn

Fforwm Dysgu ac Addysgu

Fforwm Eco

Fforwm Cymreictod

Fforwm Digidol